# Cynrychiolydd Rhanbarthol

## Math o gontract: Rhan amser (2 ddiwrnod/14.6 awr yr wythnos), 46 wythnos y flwyddyn, Medi – Gorffennaf, Parhaol
## Cyflog: £53,649.00 - £57,225.00 y flwyddyn (Gradd 12) Pro Rata

Mae CBAC yn falch o groesawu ceisiadau am Gynrychiolydd Rhanbarthol i ymuno â'n tîm rhanbarthol yn Lloegr.

**Y rôl:**
Mae ein tîm rhanbarthol yn hyrwyddo cymwysterau Eduqas ac yn cefnogi athrawon sydd eisoes yn eu defnyddio. Rydym yn cydweithio'n agos â thimau'r pynciau a chydweithwyr eraill i sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i ysgolion a cholegau. Mae'r rôl hon yn un gweithio gartref, sydd hefyd yn ymweld â chanolfannau ac yn ymgysylltu ar-lein. Er y bydd rhan sylweddol o'r rôl yn cynnwys hyrwyddo a chefnogi'r cymwysterau Galwedigaethol Eduqas, bydd gofyn hefyd i ddeiliad y swydd weithio mewn meysydd pwnc eraill i raddau llai arbenigol yn ôl yr angen.

**Yr unigolyn:**
Croesawir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad diweddar o addysgu pynciau Galwedigaethol. Byddwch chi'n mwynhau gweithio'n annibynnol, ond byddwch chi hefyd yn ffynnu yn rhan o dîm bach. Byddwch chi'n frwd am ymgysylltu ag athrawon a nodi'r ffyrdd gorau o ddeall eu hanghenion ac ymateb iddynt. Bydd angen i ymgeiswyr fod yn barod i fod yn hyblyg yn y gwaith a gallu teithio o fewn y DU yn ôl y gofyn, yn ogystal ag ymgysylltu ag athrawon ar-lein. Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal unwaith y tymor yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

**Ein buddion:**
Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio ynddo. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn hynod gystadleuol a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

I gael gwybod mwy am y rôl, neu am weithio gyda ni, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk). Byddant yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 06 Mai 2024
## Cyfweliadau: 20 Mai 2024

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynrychiolydd Rhanbarthol |
| **Adran:** | Strategaeth |
| **Isadran:** | Tîm Rhanbarthol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Gweithredol: Datblygiad Masnachol |
| **Gradd:** | 12 |
| **Lleoliad:** | Gweithio gartref |

## Prif bwrpas y Swydd:

Cynnig arweiniad a chefnogaeth ar lefel ymgynghorol i ysgolion a cholegau y tu allan i Gymru, a hyrwyddo cymwysterau Eduqas i ganolfannau presennol a chanolfannau newydd.

Mae'r rôl hon yn cwmpasu'r holl gymwysterau a gynigir gan CBAC yn Lloegr, gan gynnwys TAG, TGAU, Tystysgrifau Lefel 1 / Lefel 2 a Lefel 3, a Lefel Mynediad.

Mae hon yn swydd rhan amser am 46 wythnos y flwyddyn (nid oes gofyn gweithio yn ystod gwyliau'r Haf).

Rhagwelir y bydd y Cynrychiolydd Rhanbarthol yn treulio dau diwrnod bob wythnos yn ymgysylltu â chanolfannau / mynychu digwyddiadau'n bersonol neu o bell ac yn treulio'r diwrnod arall yn sefydlu a chynnal cysylltiadau â chanolfannau. Bydd modd bod ychydig yn hyblyg o ran trefnu amser ond byddai disgwyl i'r penodai gymryd rhan mewn galwad wythnosol ar-lein, adolygiad ar-lein o'r hyn sydd ar y gweill bob mis a chyfarfod bob hanner tymor (yng Nghaerdydd, rhywle arall neu ar-lein) â'r Swyddog Gweithredol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lloegr a chydweithwyr.

Bydd y Cynrychiolydd Rhanbarthol hefyd yn gysylltiedig â pharth penodol (grŵp o dimau pynciau) a bydd disgwyl iddo fynychu cyfarfodydd parth perthnasol, a hynny ar-lein fel arfer.

Mae'r tîm rhanbarthol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni nodau strategol CBAC. Sail y gwaith yw ymgysylltu, caffael a thargedau cadw, sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

### Datblygu busnes

- Helpu'r busnes i gyflawni ei dargedau o ran nifer y canolfannau / ymgeiswyr sy'n dilyn cymwysterau Eduqas
- Annog a hwyluso symud o gyrff dyfarnu eraill i Eduqas
- Cynnig cefnogaeth ac arweiniad perthnasol er mwyn cadw cofrestriadau y canolfannau hynny sydd mewn perygl o adael

- Helpu i gynyddu niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau DPP
- Annog y canolfannau hynny sydd eisoes gydag Eduqas i gymryd cymwysterau eraill dan frand Eduqas ac i gyfrannu at gyrraedd targedau twf
- Cyflwyno cymwysterau Eduqas i ganolfannau sydd ddim yn eu defnyddio ar hyn o bryd
- Cysylltu â swyddogion pwnc perthnasol i feithrin arbenigedd yn un neu fwy o gymwysterau, yn enwedig y rheini a enwebir fel blaenoriaethau i'w cadw neu flaenoriaethau twf
- Darparu gwybodaeth am gystadleuwyr a deallusrwydd am y farchnad ehangach mewn perthynas â chonsortia, ymddiriedolaethau aml-academi a grwpiau eraill o ysgolion a cholegau i'r Swyddog Gweithredol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lloegr fel y gall CBAC Eduqas ffurfio perthynas â nhw.

**Cyfathrebu â chanolfannau Eduqas yn Lloegr**

- Hyrwyddo amrediad llawn o gymwysterau CBAC, yn benodol ei gymwysterau TAG, TGAU a galwedigaethol Eduqas
- Gweithredu fel 'rheolwr cysylltiadau cleientiaid' i ganolfannau mewn ardal benodol, gan gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd, yn ôl cyfarwyddyd
- Ymateb yn uniongyrchol i geisiadau am wybodaeth gan ganolfannau, ar lafar ac ar ffurf electronig
- Lle bo angen, mynd ar drywydd materion ac ymholiadau perthnasol gan ganolfannau gyda chydweithwyr priodol ar draws y busnes
- Cyfathrebu gwybodaeth i ganolfannau ynglŷn â chymwysterau Eduqas
- Cynnig cyngor ac arweiniad i brifathrawon, athrawon, swyddogion arholiadau ac eraill ynglŷn â materion yn ymwneud â chymwysterau Eduqas
- Cynrychioli Eduqas mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol a pharatoi a gwneud cyflwyniadau pan fo angen e.e. mewn grwpiau rhanddeiliaid, seminarau perthnasol, cynadleddau, arddangosfeydd, cyfarfodydd swyddogion arholiadau ac ati
- Datblygu cefnogaeth Eduqas i rwydweithiau athrawon pynciau perthnasol a chymunedau addysg eraill
- Gan weithio gyda Swyddog Gweithredol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lloegr, paratoi ac arwain sesiynau ar-lein cyffredinol i athrawon a rhanddeiliaid eraill yn ôl y galw
- Gweithio gyda'r parthau i baratoi ac arwain digwyddiadau datblygiad proffesiynol dethol yn ymwneud â chymwysterau perthnasol
- Cysylltu, dros amser, â'r holl ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau Eduqas yn y rhanbarth penodol; cwrdd ag arweinwyr pynciau ac uwch reolwyr a gweithredu fel gwasanaeth "clinig cwricwlwm" i ganolfannau os bydd angen.

**Datblygu gwasanaethau ac adnoddau sy'n berthnasol i gymwysterau Eduqas**

- Defnyddio arbenigedd proffesiynol a phrofiad addysgol i gyfrannu mewn ffordd ryngweithiol ac arloesol at ddatblygiadau sy'n ymwneud â chymwysterau Eduqas, er enghraifft drwy adrodd yn ôl am safbwyntiau a gasglwyd yn ffurfiol ac yn fwy anffurfiol
- Cynghori canolfannau am natur yr adnoddau addysgol sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu cymwysterau Eduqas
- Rhoi cyngor, arweiniad a'r newyddion diweddaraf i'r tîm Datblygu Cymwysterau/Swyddogion Pwnc ynghylch materion perthnasol yn ymwneud â chynllunio a datblygu cymwysterau
- Cynghori cydweithwyr (drwy'r Swyddog Gweithredol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lloegr) ynghylch yr hyn sy'n datblygu o ran anghenion canolfannau mewn perthynas â chymwysterau, adnoddau ac agweddau gweinyddol
- Gweithio gyda meysydd pwnc penodol i ddatblygu deunyddiau ac adnoddau hyfforddi pwnc-benodol i'w defnyddio wrth ymweld, ymgysylltu ar-lein ac mewn cyd-destunau eraill
- Datblygu ac arwain cyfarfodydd hyfforddi, adborth a rhwydweithio wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer cymwysterau penodol.

**Cyfrifoldebau Eraill**

- Cydweithio'n agos â pharth penodol i sicrhau bod y tîm rhanbarthol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a bod timau'r pynciau yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn deall ac yn gweithio tuag at gyflawni targedau twf
- Mynychu cyfarfodydd parth perthnasol lle y bo'n briodol
- Cydweithio'n agos â'r Swyddog Gweithredol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Lloegr a staff eraill i adnabod a hyrwyddo arfer da a goresgyn heriau yn y canolfannau
- Cadw cofnodion priodol o gysylltbwyntiau, ymweliadau a gweithredoedd
- O dro i dro, ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd e.e. i gefnogi mentrau eraill CBAC / Eduqas.

## Manyleb Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynrychiolydd Rhanbarthol |
| **Adran:** | Strategaeth |

Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

### Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau ysgrifenedig a llafar datblygedig
- Sgiliau cyfathrebu
- Sgiliau rhyngbersonol
- Sgiliau rhifedd
- Sgiliau cyflwyno
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau dadansoddi a datrys problemau
- Llythrennedd TG
- Y gallu i weithio i derfynau amser tynn
- Y gallu i weithio dan bwysau
- Tact a diplomyddiaeth

### Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Egwyddorion a chyd-destunau datblygu cwricwlwm
- Polisi addysg perthnasol i ddatblygiadau yn Lloegr o ran cymwysterau TAG, TGAU a chymwysterau eraill
- Technegau addysgu a dysgu ac asesu a sut i'w cymhwyso.

### Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad addysgu
- Profiad Pennaeth Adran neu debyg
- Profiad mentora
- Datblygu adnoddau

### Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Cymhwyster gradd
- TAR

### Gofynion Eraill

**Dymunol**

- Trwydded yrru lân

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | Cynrychiolydd Rhanbarthol/ Regional Representative | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £53,649.00 - £57,225.00<br>y flwyddyn/ per annum<br>(Pro-rata) | **Gradd:**<br>**Grade:** | 12 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd (Pro-rata).<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays (Pro-rata) | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Darpariaeth y rheoliadau Pensiynau Athrawon<br><br>The provision of the Teachers Pensions regulations | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** | |
|---|---|---|
| ☐ Llawn amser / Full Time | | |
| ☒ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** | 14.6 (46 wythnos y flwyddyn) |
| ☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | |
| ☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | / / |

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **dydd Llun 06 Mai 2024**.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by Monday 06 May 2024.